

## Mae drysau'r Pafiliwn ar agor ichi ei logi.

Mae ein hadeilad cymunedol, y Pafiliwn, wedi'i ail-agor erbyn hyn ac mae modd ichi ei logi ar gyfer digwyddiadau untro neu ddigwyddiadau rheolaidd. Os hoffech chi gynnal digwyddiad yma, megis digwyddiad teuluol, parti plant neu gyfarfod grŵp ar gyfer diddordebau penodol, beth am gysylltu gyda ni i logi'r Pafiliwn. Cysylltwch gyda ni am ragor o fanylion gan ddefnyddio unrhyw un o'r manylion cyswllt ar glawr y newyddlen hon.



Mae modd i hyd at 20 o bobl ymgynnull yn ystafell y Pafiliwn neu hyd at 12 os ydy'r mesurau cadw pellter cymdeithasol o 2 fedr yn sgil COVID ar waith. Mae'r byrddau wedi'u gosod er mwyn cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd ond fe allwch chi eu hail-drefnu fel eu bod yn gweddu i'ch digwyddiad chi.

Mae cegin ar y safle y gallwch chi ei defnyddio i baratoi diodydd poeth ac oer ond yn anffodus nid oes modd ei defnyddio i baratoi bwyd o dan y rheoliadau COVID presennol.

Dyma'r costau llogi isod:

Prif Ystafell	Lleol/ Elusen	Prif Ystafell	Busnes
Cyfradd yr Awr	£10	Cyfradd yr Awr	£25
Hanner Diwrnod	£20	Hanner Diwrnod	£50
Diwrnod Llawn	£35	Diwrnod Llawn	£75

Sylwch, ni chaniateir diodydd meddwol ar y safle.

## GWERSI CYMRAEG I SIARADWYR NEWYDD

Hoffwn awgrymu'r syniad er mwyn canfod faint fyddai â diddordeb ac a fyddai'n awyddus i gyflawni cwrs dysgu Cymraeg i ddechreuwyd?

Mae angen sicrhau hyn a hyn o ddiddordeb cyn y byddai'r rheiny sy'n cynnal y cwrs yn ystyried ein cais. Yn amlwg, does dim manylion ar hyn o bryd ynghylch pryd fydd y cwrs a pha fath o gwrs fyddan nhw'n ei gynnig ond rydym yn gobeithio y byddan nhw'n ei gynnal yn y pentref.

Bu inni dderbyn ymateb cadarnhaol eisoes ar dudalen Facebook Dolwyddelan ond gofynnwn yn garedig ichi ddatgan eich diddordeb *chi* drwy gysylltu gyda Paul ar 01690 750 519 (gadewch neges os gwelwch yn dda) neu drwy e-bostio [padonnelly58@yahoo.com](mailto:padonnelly58@yahoo.com)